# YMGYNGHORIAD CYMWYSTERAU CYMRU AR STRATEGAETH Y GYMRAEG – YMATEB UCAC

**1. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull wedi ei amlinellu yn ein strategaeth Gymraeg cynigiedig?**

Rydym yn croesawu unrhyw gyfle i gryfhau statws y Gymraeg a'r ymwybyddiaeth o'r iaith o fewn unrhyw sefydliad. Rydym yn falch darllen fod Cymwysterau Cymru yn awyddus i arwain drwy esiampl ac edrychwn ymlaen at weld hyn yn cael ei wireddu a'i gyflawni yn ystod y blynyddoedd a gwmpesir gan y strategaeth newydd. Rydym yn croesawu'r ymdrechion i sicrhau statws i'r Gymraeg o ran y cymwysterau a hefyd o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle.

**2. I ba raddau yr ydych yn cytuno bod y strategaeth yn ddigon uchelgeisiol i gefnogi amcanion Bil y Gymraeg ac Addysg a ysgogwyr polisi eraill o ran y Gymraeg?**

Teimlwn fod angen bod mor uchelgeisiol â phosibl, gan fonitro'r hyn sy'n digwydd.

**3. Pa dueddiadau ychwanegol sy'n effeithio ar addysg a chymdeithas ehangach ddylen ni eu hystyried?**

Tybed faint o sylw sy'n cael ei roi i faterion yn ymwneud â'r gweithlu. A ydych wedi ystyried eich rôl o ran hyrwyddo'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau sy'n hyfforddi athrawon? Rydych yn nodi bod 'llunio sut y bydd cymwysterau yn bodloni anghenion dysgwyr yn y dyfodol' yn rhan o'ch rôl. Tybed a oes lle i fod yn fwy rhagweithiol i hyrwyddo cyrsiau cyfrwng Cymraeg a hybu'r angen am sgiliau dwyieithog mewn swyddi'n gyffredinol.

Rydym yn byw mewn cymdeithas sy'n newid yn barhaus ac mae'n debyg y bydd swyddi'r dyfodol yn dra gwahanol i swyddi'r presennol. Byddai'n syniad, felly, i fod yn rhagweithiol wrth ystyried y gofynion o ran cyrsiau. Os ydych yn awyddus i fodloni 'anghenion cenedlaethau'r dyfodol', mae angen meddwl yn awr beth fydd yr anghenion hynny. A oes lle i chi arwain y ffordd o ran cymwysterau a chyrsiau sy'n rhoi pwys ar y dechnoleg ddiweddaraf?

**4. Gyda pha agwedd o'n gwaith allwch chi'n helpu fel partneriaid/ rhanddeiliaid, er mwyn ein cefnogi i gwblhau amcanion y strategaeth?**

Fel undeb rydym yn angerddol dros y Gymraeg, a thros sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r sawl sy'n dymuno astudio ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig, felly, fod ystod eang o gyrsiau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a bod popeth yn cael ei wneud i hwyluso a chefnogi'r sawl sydd am astudio/addysgu yn y Gymraeg. Mae'n bwysig hefyd bod yr adnoddau yn ymddangos ar yr un pryd ac i'r un safon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid ydym am weld mai cyfieithiadau o'r Saesneg yw popeth sy'n ymddangos yn y Gymraeg. Fel undeb, byddwn yn cefnogi pob ymdrech i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg.

5. **Rydym wedi awgrymu strategaeth bum mlynedd 2025-2030, gydag adroddiadau blynyddol – a yw hyn yn synhwyrol yn eich barn chi?**

   O lunio strategaeth, mae'n bwysig bod y strategaeth honno'n cael ei monitro'n gyson. Ymddengys yn synhwyrol i gael adroddiadau blynyddol, ond yr hyn sydd bwysicaf yw fod yna weithredu a chynnydd go iawn.

6. **Sut gallwn ni fesur ein heffaith?**

   O fewn y pum colofn, buaswn yn hoffi gweld y cynnydd canlynol:

   Colofn 1 a 2

   Ystod eang o gymwysterau Cymraeg/cyfrwng Cymraeg a'r niferoedd sy'n eu dilyn yn cynynddu'n gyson.

   Colofn 3 a 4

   Hoffwn weld cyfathrebiaeth yn cael ei chynhyrchu yn y Gymraeg ac yn cael ei chyfieithu i'r Saesneg. Faint o'r erthyglau sy'n ymddangos ar y wefan sy'n rhai Cymraeg ac sydd wedi eu cyfieithu i'r Saesneg? Hoffwn sicrwydd fod canran o'r erthyglau yn deillio o brofiadau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Hoffwn weld y Gymraeg yn cael blaenoriaeth mewn cyfarfodydd a chyflogeion Cymwysterau Cymru yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y lle cyntaf. Dylid ystyried o ddifrif yr angen i nodi bod y Gymraeg yn 'hanfodol' yn y rhan fwyaf o'r swyddi o fewn y sefydliad. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi fod y Gymraeg eisoes yn cael statws o fewn y sefydliad, ond 'Nid da lle gellir gwell'!

   Colofn 5

   Sicrhau bod datblygiadau arloesol yn digwydd ym maes technoleg a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

7. **Unrhyw sylwadau eraill?**